

# Trwydded i Gyhoeddi

---

Annwyl Awdur

Mae arnom angen eich caniatâd ysgrifenedig cyn y gallwn gyhoeddi'r erthygl yr ydym wedi'i derbyn gennych yn *Gwerddon*. Dylid defnyddio'r ffurflen hon i'r perwyl hwn. Darllenwch y ffurflen yn ofalus, ac os ydych yn fodlon â'r telerau, llenwch hi, gan anfon fersiwn argraffedig ohoni drwy'r post at y cyfeiriad canlynol:

*Gwerddon*  
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol  
Y Llwyfan  
Heol y Coleg  
Caerfyrddin. SA31 3EQ.

**MANYLION (llenwch y rhain)**

**Enw'r Cylchgrawn:** *Gwerddon*

**Teitl yr erthygl:** \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

**Awdur(on):** \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Yr ydych chi (sydd wedi arwyddo isod) yn rhoi'r drwydded ganlynol i **Gwerddon** ("y Cyhoeddwr").

### Cefndir

- Mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â chyhoeddi gwaith ysgolheigaidd a gwyddonol, a'i fwriad yw taro cydbwysedd rhwng hawliau'r Awdur a hawliau'r Cyhoeddwr, yn unol â'r egwyddor fod yr Awdur a'r Cyhoeddwr o'r farn ei bod o fudd cyffredinol i roi'r mynediad ehangaf i waith ysgolheigaidd a gwyddonol heb gyfaddawdu ar ansawdd na rhyddid academaidd.

### Cymal 1: Diffiniadau

Bydd i'r geiriau canlynol yr ystyr a nodir isod:

- Derbyn:** gohebiaeth gan y Cyhoeddwr i'r Awdur yn nodi ei barodrwydd i gyhoeddi gwaith yr Awdur.
- Erthygl:** y fersiwn gyhoeddedig o waith yr Awdur, dan y teitl:  
"\_\_\_\_\_".
- Cyhoeddiad:** Y cyfnodolyn neu gyhoeddiad cyfnodol cyffelyb, ar ffurf argraffedig neu ddigidol, lle bwriedir cyhoeddi'r Erthygl.

### Cymal 2: Trwydded hawliau

- O dderbyn yr Erthygl, mae'r Awdur yn rhoi trwydded gyfan gwbl i'r Cyhoeddwr ddefnyddio'r hawliau ar yr Erthygl a restrir yng nghymal 2.2 trwy gydol y byd am gyfnod llawn yr hawlfraint.
- Mae'r drwydded gyfan gwbl a grybwyllwyd yng nghymal 2.1 yn cynnwys yr hawl i'r Cyhoeddwr:
  - atgynhyrchu'r Erthygl, yn llawn neu'n rhannol, ac i gyhoeddi'r Erthygl i'r cyhoedd ar ffurf argraffedig a/neu ddigidol, boed wedi'i chyfuno â gwaith pobl eraill neu beidio, er enghraifft: cyhoeddi i'r cyhoedd dros y rhyngrwyd neu dros unrhyw rwydwaith arall, yn rhan o fas-data, ar-lein neu oddi ar-lein, i'w defnyddio gan drydydd parti;
  - cyfieithu'r Erthygl i ieithoedd eraill, a chyhoeddi'r fersiwn gyfieithedig i'r cyhoedd;
  - creu addasiadau, crynodebau, neu ddarnau o'r Erthygl neu waith deilliadol arall yn seiliedig ar yr Erthygl a defnyddio'r holl hawliau yn yr addasiadau, crynodebau, darnau, a gwaith deilliadol rheiny;
  - cynnwys yr Erthygl, boed wedi'i chyfieithu neu wedi'i haddasu neu grynoded ohoni, yn llawn neu'n rhannol mewn bas-data ar gyfrifiadur, a sicrhau bod y bas-data hwn ar gael i drydydd parti;
  - cynnwys yr Erthygl, yn llawn neu'n rhannol, boed wedi'i chyfieithu neu wedi'i haddasu neu grynoded ohoni, mewn llyfr darllen neu mewn casgliad;
  - rhentu neu fenthyca'r Erthygl i drydydd parti, gan gynnwys yn hynny yr hawl i gynnwys yr Erthygl, yn llawn neu'n rhannol, mewn bas-data at ddiben ymchwil cloddio data sydd ar gael i'r cyhoedd dros y rhyngrwyd;
  - atgynhyrchu'r Erthygl trwy reprograffeg, er gwaethaf cyfyngiadau'r gyfraith.

3. Mae'r Cyhoeddwr yn ymrwymo i gydnabod enw'r Awdur a'r ffynhonnell ar ffurf safonol ar gyfer dyfyniadau llyfryddiaethol.

### **Cymal 3: Hawliau a gedwir gan yr Awdur**

1. Mae'r Awdur yn cadw pob hawl arall mewn perthynas â'r Erthygl na roddir i'r Cyhoeddwr, ac yn benodol, gall ymarfer yr hawliau canlynol:

#### ***Defnydd addysgol neu ymchwil***

I atgynhyrchu'r Erthygl, yn llawn neu'n rhannol, a'i chyfleu i'r cyhoedd neu sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd, boed ar ffurf argraffedig a/neu ddigidol, boed yn rhan o becyn cwrs neu gasgliad, i'w defnyddio ar gyfer addysg neu ymchwil yn sefydliad yr Awdur ei hun, neu'r sefydliadau y mae'r Awdur yn gysylltiedig â nhw.

#### ***Lledaenu***

I lwytho'r Erthygl i fyny, neu roi hawl i sefydliad yr Awdur ei hun (neu gorff priodol arall) lwytho'r Erthygl i fyny, yn syth o ddyddiad cyhoeddi'r cylchgrawn y cyhoeddir yr Erthygl ynddo (oni fydd yr Awdur a'r Cyhoeddwr wedi cytuno ar bapur i gyfnod byr o waharddiad, na fydd yn hwy na chwe (6) mis):

- a. ar rwydwaith caeëdig y sefydliad (e.e. mewnwyd); a/neu
- b. ar gadwrfeydd sefydliadol sy'n agored i'r cyhoedd a/neu sy'n cael eu rheoli'n ganolog gan y sefydliad, cyhyd â bod dolen yn cael ei chysylltu i'r Erthygl ar wefan y Cyhoeddwr.

#### ***Cadwraeth***

I roi i sefydliad yr Awdur ei hun (neu gorff priodol arall) yr hawl i atgynhyrchu'r Erthygl er mwyn ei rhwystro rhag dirywio, neu os bydd y fersiwn wreiddiol ar fformat darfodedig neu os na fydd y dechnoleg angenrheidiol ar gael i ddefnyddio'r fersiwn wreiddiol, er mwyn sicrhau bod yr Erthygl yn parhau i fod ar gael at ddibenion addysg ac ymchwil;

#### ***Aildefnydd yn y dyfodol***

I aildefnyddio'r Erthygl yn ei chyfanrwydd neu'n rhannol mewn traethawd hir, casgliad, neu waith arall.

#### ***Defnydd personol***

I gyflwyno'r Erthygl mewn cyfarfod neu gynhadledd ac i ddsbarthu copiâu o'r Erthygl i'r rhai sy'n mynychu'r cyfarfod.

#### ***Defnydd gan ddefnyddwyr olaf***

I roi i ddefnyddwyr olaf sefydliad yr Awdur ei hun (neu gorff priodol arall) hawl i gopïo, defnyddio, dosbarthu, trosglwyddo, a dangos y gwaith yn gyhoeddus, ac i wneud a dosbarthu gwaith deilliadol.

2. Ym mhob achos o (ail)ddefnyddio'r Erthygl fel y disgrifir yn y paragraffau uchod, mae'r Awdur neu'r Cyhoeddwr yn ymrwymo i gynnwys manylion llawn y ffynhonnell bob tro (enw'r Awdur, teitl a rhif y Cyhoeddiad, ac enw'r Cyhoeddwr o leiaf), oni bai fod hyn yn amhosibl.

#### **Cymal 4: Hawliau moesol**

Nid yw'r cytundeb hwn yn effeithio ar hawliau moesol yr Awdur yn yr Erthygl. Yn fwy penodol, mae'r Awdur yn datgan ei hawl i gael ei gydnabod fel yr Awdur, a'r hawl i wrthwynebu unrhyw driniaeth ddirmygus.

#### **Cymal 5: Gwarant**

1. Mae'r Awdur yn gwarantu mai ef/hi yw unig greawdwr yr Erthygl, ac nad yw'r Erthygl yn tresmasu ar unrhyw hawlfraint neu hawl foesol bresennol gan drydydd parti.
2. Os torrir y warant hon, bydd yr Awdur yn indemnio'r Cyhoeddwr rhag, a'i gadw rhag niwed gan, unrhyw hawliadau gan drydydd parti sy'n deillio o gyhoeddi'r Erthygl. Bydd y gwarantau yn yr erthygl hon hefyd yn berthnasol i unrhyw lun, ffotograff, neu ddarlun arall a gynhwyswyd yn yr Erthygl ac a gyflenwyd gan yr Awdur.
3. Mae'r Awdur yn awdurdodi'r Cyhoeddwr i gymryd, ar y cyd â'r Awdur, y camau angenrheidiol i atal trydydd parti rhag torri'r hawlfraint yn yr Erthygl. Mae'r Awdur a'r Cyhoeddwr yn ymrwmo i gydweithredu'n llawn gyda'i gilydd, ac i roi gwybodaeth lawn i'w gilydd yn hyn o beth. Bydd y costau'n destun cytundeb ar wahân os bydd y cwestiwn yn codi.

#### **Cymal 6: Rhwymedigaeth i gyhoeddi**

Yn amodol ar Dderbyn yr Erthygl, mae'r Cyhoeddwr yn ymrwmo i gyhoeddi'r Erthygl i safonau arferol y Cyhoeddwr ar draul y Cyhoeddwr ymhen cyfnod rhesymol ar ôl Derbyd yr Erthygl.

#### **Cymal 7: Copïau rhad ac am ddim**

Yn achos Cyhoeddi, mae gan yr Awdur yr hawl i gael copi, neu i gael mynediad i gopi o'r Cyhoeddiad perthnasol y mae'r Erthygl yn ymddangos ynddo. Ni chaiff yr Awdur roi'r copïau hyn ar werth na gwerthu'r copïau.

#### **Cymal 8: Perthynas gyfreithiol**

1. Mae'n bosibl i'r Cyhoeddwr drosglwyddo'r hawliau defnyddio ar yr Erthygl i drydydd parti, cyhyd â bod y trydydd parti hwn yn cyflawni'r rhwymedigaethau sydd gan y Cyhoeddwr i'r Awdur yn unol â'r cytundeb hwn.
2. Os gall yr Awdur ddangos fod defnydd yr Erthygl gan y Cyhoeddwr yn unol â thrwydded yn effeithio ar ei hawliau moesol, gall yr Awdur fynnu i'r Cyhoeddwr ymatal rhag ei defnyddio. Rhaid i'r Cyhoeddwr barchu'r cais, oni bai fod hynny'n afresymol o ystyried gwerth gwyddonol neu hanesyddol yr Erthygl.
3. Ni fydd terfynu'r cytundeb hwn yn effeithio ar unrhyw gytundeb dilys a wnaed yn barod gan y Cyhoeddwr gyda thrydydd parti.
4. Nid oes unrhyw friad yn y cytundeb hwn i roi hawliau i unrhyw drydydd parti.

### **Cymal 9: Awduron Niferus**

Yn achos awduron niferus, mae gan yr Awdur gydsyniad pob awdur i gytuno i'r Drwydded Cyhoeddi hon ar eu rhan.

### **Cymal 10: Cyfraith berthnasol**

Rheolir a dehonglir y cytundeb hwn yn unol â Chyfraith Lloegr. Mae'r Drwydded hon yn ymgorffori ac yn rhoi gerbron dealltwriaeth y partïon ac yn disodli pob dealltwriaeth a chytundeb ysgrifenedig blaenorol yn ymwneud â chynnwys y Drwydded hon.

### **Cymal 11: Cymal olaf**

Daw'r cytundeb hwn i rym yn syth o dderbyn yr Erthygl, a bydd yn parhau i fod mewn grym am oes yr hawlfraint ar yr Erthygl.

**Llofnod** (ar ran pob cyd-awdur (os oes rhai)): \_\_\_\_\_

**Dyddiad** \_\_\_\_\_

**Enw mewn llythrennau bras** \_\_\_\_\_